

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 11eg Mehefin, 2018, yn Ffestri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.50 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Is-Gadeirydd yn cadeirio)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain,
Carys E. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr David Brunelli, Elin Hughes, Gwenan Griffith,
Glenys Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

17. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd yr Is-Gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

18. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

19. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 14eg Mai, 2018.

Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Ifor Owen ac eilwyd gan Y Cyngorydd Carys H. Evans.

MATERION YN CODI**(1) Eitem 9 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (c) – Materion Iechyd**

Adroddodd y Clarc nad oedd yr is-bwyllgor wedi ymweld â'r Feddygfa hyd yn hyn a gofynnodd am arweiniad a phwyntiau i'w trafod gyda'r Rheolwr a'r Meddyg. Rhoddwyd y pwyntiau a ganlyn ymlaen:

Apwyntiadau – y diffyg o gael cysylltiad ar y ffôn i wneud apwyntiad.

Apwyntiad i weld Nyrs ar brynghawn Gwener ac wedi i'r claf eistedd yn yr ystafell aros am dri chwarter awr cael ar ddeall nad oedd y Nyrs arbennig hwnnw yn gweithio ar ddydd Gwener.

Claf wedi mynychu'r Feddygfa ac er fod ganddo(i) docyn yn dangos hynny nid oedd gan y claf apwyntiad yn ôl y system.

Yr angen am system gyfrifiadurol

Pan mae claf yn gweithio ni all wneud apwyntiad ar y bore

Cleifion sy'n hungyflogedig yn gweld anhawster gyda'r system apwyntiadau.

Mynychu'r Feddygfa a neb tu ôl i'r ddesg

Claf yn cwyno iddo(i) gael cerydd am ganu'r gloch wrth y ddesg er ei f(b)od wedi bod yn sefyll yno am ddeng munud yn aros.

Y Fferyllfa yn cau am bedwar ar brynghawn Gwener tra fod yr apwyntiadau yn rhedeg hyd chwech – hyn yn creu rhwystredigaeth.

Y teimlad cyffredinol yw fod y sefyllfa fel ac y mae ar hyn o bryd yn rhwystredig nid yn unig i'r cleifion ond hefyd i'r staff sydd yn wynebu a gorfod ateb cwestiynau'r cleifion.

Penderfynwyd nodi'r sylwadau a'u cyflwyno i'r Rheolwr a'r Meddyg.

(2) Eitem 12 – Materion Ffyrdd – mainc ar Gomin Bryncroes

Cyflwynwyd Y Cynghorydd Glyn Roberts adroddiad mai amcan bris am drwsio'r fainc ar y Comin fyddai £40.

Pederfynwyd awdurdodi'r Cynghorydd Roberts i fynd ymlaen â'r gwaith a'i pheintio. Hefyd addawodd baentio'r fainc ger y Llythyrdy ym Motwnnog.

20. CEISIADAU CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw gais i law.

21. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i sylw'r Cyngor Iechyd.

22. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Pengopa, Bryncroes, y camfeydd ger Siop Rhos a Phengopa, Bryncroes.

23. PROSIECT LLIF LLANW YNYS ENLLI

Cyflwynwyd gwybodaeth gan Nerys Kimberley, Swyddog Ymgysylltu 'Nova Innovation' – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen. Eglurodd y Swyddog eu bod eisoes wedi cyfarfod gyda'r "Gadwraeth Morfilod a Dolffiniaid, Ymddiriedolaeth Ynys Enlli, preswylwyr Enlli a physgotwyr lleol i drafod y prosiect ac egluro iddynt beth fydd y camau nesaf." Dywedodd hefyd fod taflenni gwybodaeth wedi eu gosod ar hysbysfyrddau yn ardal Aberdaron.

Rhoddodd y Cynghorydd Siôn Williams wybodaeth bellach ar y cynllun a diolchwyd iddo am hyn.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

24. HYSBYSIAD PREIFATRUYDD CRONFA DDATA CYNGHORAU CYMUNED A THREF

Cyflwynwyd hysbysiad o Lywodraeth Cymru ynglyn a'r Gronfa Ddata – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

25. ARCHWILIO'R CYFRIFON

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwyr Mewnol dyddiedig Mehefin, 2018 (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

Trafodwyd y tri mater a godwyd sef:

Methiant i gofnodi asedau'r Cyngor yn unol â'r gofynion
Methiant i adrodd yn rheolaidd ar wariant yn erbyn y gyllideb
Methiant i ddarparu cyflogeion gyda chytundeb gwaith.

(a) Methiant i gofnodi asedau'r Cyngor yn unol a'r gofynion.

Dywedodd y Clarc nad oedd wedi ei wneud ac ni chodwyd y mater erioed o'r blaen ond o hyn ymlaen byddai'n adrodd yn flynyddol ar yr asedau – ar gyfer y flwyddyn ariannol yma mae gan y Cyngor:

Dair mainc yn cael eu hyswirio i gyfanswm o	£ 1,157.32
Ffiniau'r fynwent a'r giat yn cael ei hyswirio i	£10,042.70
Lloches bws yn cael ei yswirio i	£ 6,592.57
Cyfanswm yr asedau yn	£17,792.59

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.

(b) Methiant i adrodd yn rheolaidd ar wariant yn erbyn y gyllideb

Eglurodd y Clarc ei bod yn cadw golwg barcud ar y cyfrifon a phetai unrhyw wendid yn cael ei ddangos yn y cyfrifon byddai'n adrodd yn syth i'r Cyngor. 'Roedd o'r farn fod yr adroddiad yr oedd yn ei baratoi ddechrau lonawr ymhob blwyddyn yn ddigonol gan ei bod yn rhoi manylion llawn o'r gwariant yn erbyn yr incwm ar y pryd hynny ac hefyd yn ceisio gwneud rhyw fath o gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol cyn i'r Cyngor benderfynu ar eu praesept. Gofynnodd i'r Archwilydd Mewnol a oedd hyn yn ddigonol ond teimlai y dylid adrodd yn fwy rheolaidd. Trafodwyd y mater.

Penderfynwyd cyflwyno adroddiad gyffelyb i'r rhai blaenorol ar gyfer lonawr ymhob blwyddyn ond i adrodd yn ychwanegol ar y gwariant yn erbyn yr incwm bob Mehefin, Hydref, a Mawrth.

(c) Methiant i ddarparu cyflogeion gyda chytundeb gwaith

'Roedd Cytundeb waith eisoes mewn grym ond tynnodd yr Archwilydd Mewnol nad oedd enw/cyfeiriad na chyflog y Clarc yn gynwysedig.

Penderfynwyd defnyddio'r un Gytundeb waith ond ychwanegu enw, cyfeiriad a chyflog y Clarc.

Yn ychwanegol penderfynwyd cwblhau'r ffurflen flynyddol i'r Archwilwyr Allanol fel a ganlyn:

Tudalen 2 – yr Archwiliwr Mewnol wedi cwblhau'r cwestiynau a'r Cyngor yn cymeradwyo'r ffigurau.

Tudalen 3 o'r ffurflen 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1):

Ateb 'cywir' i gwestiynau 1 – 8

Ateb i gwestiwn 9 – D/G

Tudalen 4 o'r ffurflen 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2):

Ateb 'cywir' i gwestiynau 1 -3

Awdurdodi'r Is-Gadeirydd i arwyddo'r Gymeradwyaeth gan y Cyngor.
Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (tudalennau 6 a 7).

26. UN LLAIS CYMRU

Cyflwynwyd hysbysiad o gyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru ar 12fed Mehefin, 2018, yn Swyddfeydd Cyngor Tref Caernarfon.

Penderfynwyd nodi fod mynychu'r cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi fel dyletswydd cydnabyddiedig. (Y ddau aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor yma yw'r Cynghorwyr David Brunelli ag Elin Hughes).

27. AWDURDOD I DALU

Adroddwyd ei bod wedi bod yn amhosibl gwneud cyflog y Clarc a faint o dreth oedd yn ddyledus i'r HMRC, yn wyneb hyn **penderfynwyd** awdurdodi Y Cynghorydd Carys H. Evans i lenwi'r ddwy siec (Y Clarc a'r HMRC) yn dilyn datrys y broblem.

Bellach mae'r system yn gweithio a llwyddwyd i baratoi'r daflen berthnasol ar gyfer y cyflog a'r dreth a pharatowyd dwy siec fel a ganlyn:

Y Clarc	£372.75
HMRC	£ 93.00

28. MYNWENT LLANDEGWNING

Cyflwynwyd adroddiad Is-bwyllgor y Fynwent a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson pryd y bu i'r Cynghorwyr Glyn Roberts (yn y Gadair), Carys H. Evans, Dylan Parry Jones ag Ifor Owen argymhell fel a ganlyn:

- (a) Fod ffioedd am hawl claddu a.y. yn codi o 1af Gorffennaf, 2018 – copi'n amgaeedig.
- (b) Fod Y Cynghorydd Glyn Roberts i archwilio'r Fynwent bob chwe mis i wneud asesiad risg o'r safle. (Awst/Medi a Mawrth ymhob blwyddyn).
- (c) I fabwysiadu'r Rheolau'r Fynwent – copi'n amgaeedig.
- (ch)I fabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – ffioedd claddu plant a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Gwynedd. (copi'n amgaeedig).

Penderfynwyd cadarnhau a gweithredu argymhellion yr Is-bwyllgor.